
# Geni'r Casglwr

## John Roberts Williams



*John Roberts Williams* Llun: Robin Griffith

Yn fy holl fywyd fedraf i ddim dweud fy mod i wedi meistroli unrhyw grefft ond un, sef y grefft o anghofrwydd. Ac efallai mai dyna pam fy mod i wedi llwyddo i oroesi am y maith flynyddoedd ym mhrifwig y meysydd cyfathrebu. Mi fûm yn parhau'n olygydd papur newydd a chadw fy synhwyrau trwy anghofio am bopeth ond beiau papur un wythnos cyn cychwyn paratoi un yr wythnos wedyn. Bûm hefyd yn golygu rhaglenni dyddiol radio a theledu gan ollwng pob rhaglen tros gof y munud y cwblheid ei darllediad.

Pan oeddwn i'n fyfyriwr fy uchelgais oedd cael sefydlu a golygu cylchgrawn Cymraeg newydd poblogaidd. Yn wir yr oedd Morris T. Williams o Wasg Gee wedi addo ei gyhoeddi pe medrid cael peth cefnogaeth ariannol cyn mentro. Ond fe ddaeth y rhyfel ac fe aeth, fel llawer menter, i'r gwellt. Ond pan riteiriais ymhen blynyddoedd roedd yr un hen awydd i olygu cylchgrawn yna o hyd.

Ond yr oedd yn fyd newydd. Pan lwyddodd Deddf Addysg 1870 i greu digon o bobl a fedrai ddarllen i brynu'r *Daily Mail* a'r *Daily Mirror* poblogaidd fe dyfodd yna yn eu sgîl gylchgronau poblogaidd fel *Answers* a *Pearson's Weekly* y dyblwyd ac y treblwyd eu tebyg hyd ar ôl yr ail ryfel.

Yna daeth bwgan mawr y teledu gyda'i ergyd enfawr i'r wasg – yn arbennig y wasg Gymraeg a'r cyhoeddiadau poblogaidd Prydeinig. Bellach dim ond y cylchgronau arbenigol oedd a sydd yn cyfri. Os ydych yn pysgota neu olffio neu'n garddio neu'n gwnïo neu'n meddwl am gadw jiraff neu rywbeth, mae yna gylchgrawn ar eich cyfer. Cannoedd o deitlau ar gannoedd o feysydd arbenigol.

Ac yn yr haf poeth hwnnw yn 1976 pan oedd pob codiad tir yn goch a'r llynnoedd yn sych fe benderfynodd Gwilym Tudur ddyfeisgar alw cyfarfod yn y Brifwyl yn Aberteifi i sefydlu cymdeithas i gasglwyr llyfrau. Ac fe ddaeth y diweddar annwyl Athro Bedwyr Lewis Jones ataf i ddweud ei fod yn gefnogol i'r syniad, gan obeithio y buasai'n sefydlu cylchgrawn newydd i'r gymdeithas a holi a fuaswn i, oedd newydd ymddeol, yn ystyried golygu'r fath gyhoeddiad pe gofynnid i mi. A minnau'n gweld posibilrwydd gwireddu hen freuddwyd, yn cytuno ar unwaith.

Dyna sut y daeth *Y Casglwr* i fod. Gyda mawr drafferth y cofiaf am fanylion y drafferth o'i sefydlu ac ni chofiaf o gwbwl am gynnwys y rhifynnau cyntaf. Ond yr oedd yna egin pwyllgor wedi ei ddewis, i gwrdd o'r cychwyn yn y Llyfrgell Genedlaethol, a helpodd y cylchgrawn o'i enedigaeth. A'r Llyfrgellydd oedd y cadeirydd.

Dewiswyd Y Parch Dafydd Wyn Wiliam, Bodedern yn ysgrifennydd a Huw Williams, Bangor yn swyddog hysbysebion a minnau'n olygydd. A chawsom dragwyddol heol i ddatblygu'r cyhoeddiad fel y mynnem.

Penderfynais mai ar lun a delw papur bro ac nid ar ffurf llyfryn y medrid cyhoeddi rataf a mwyaf deniadol ac y buasai Gwasg Gwynedd, a oedd yn fy nghyrraedd yng Nghaernarfon, yr hwylusaf i argraffu. Dewis *Y Casglwr* yn deitl syml. Penderfynu ei gyhoeddi deirgwaith y flwyddyn – at Ŵyl Ddewi, at y Brifwyl ac at y Nadolig ac ar gyfer tanysgrifwyr yn unig gan y golygai gwerthu trwy'r siopau drafferthion a chostau.



Cymdeithas Bob Owen

# Y Casglwr

Pob Peth Printiedig

RHIF 1 MAWRTH 1977

# WELE GYCHWYN

LLAFUR cariad yw pob tamaid o'r CASGLWR cyntaf yma – a diau y bydd y rhifyn ei hun yn gasgladwy yng nghyflawnder yr amser. A phwy yw'r casglwyr? Yn syml, pob un sy'n prynu llyfr hen neu newydd, neu sy'n prynu darlun neu record o unrhyw gyfnod. Nid at yr arbenigwr yr apelir, ond hyderir y cewch y cynnwys yn ddibynnol, yn gynorthwygar, yn ychwanegiad at eich gwybodaeth, ac yn ddiddan.

Efallai, yn y dyfodol, y medrwn fod yn fwy hael gyda'n cyfranwyr a'n cefnogwyr, ond ar y funud dim ond diolch yw ein lle am help pawb o bob cyfeiriad.

Cafwyd enw'r gymdeithas a sefydlwyd yn y Brifwyl yn Aberteifi – Cymdeithas Bob Owen, o un o fflachiadau ysbrydoledig (prin) Gwilym Tudur. Ac ar gyfer yr aelodau'n unig y cyhoeddir Y CASGLWR. Ar wahân i'r rhifyn hwn bydd un arall cyn y Brifwyl a'r trydydd cyn y Nadolig. Fe argreffir, yn ffyddiog braidd, bum can copi o'r rhifyn yma gan obeithio y medrir cael digon o aelodau am ddwy bunt y flwyddyn i hawlio'r rhan fwyaf ohonynt.

## Y GRONFA

CYTUNODD pwyllgor 'Cymdeithas Bob Owen' i sefydlu cronfa sylweddol i hybu gweithgarwch y gymdeithas. Bwriedir neilltuo'r llog a geir o'r gronfa hon yn bennaf i dalu costau trymion argraffu a gohebu.

Apelir am roddion neu fenthyciadau i chwyddo'r gronfa hon ar fyrder. Eisoes caed cychwyn da. Hyfryd yw cofnodi mai teulu'r diweddar Bob Owen Croesor oedd y noddwyr cyntaf. Wele restr o'r rhoddion a'r benthyciadau a ddaeth i law:

| | £ |
|---|---|
| Teulu Bob Owen | 100 |
| Elw y raffl | 58.50 |
| Mr/Mrs D. Tecwyn Lloyd | 100 (b) |
| Mrs. Kitty Idwal Jones | 10 |
| Owen Morris | 5 |
| Gwilym Tudur | 100 (b) |
| Alun R. Edwards | 100 (b) |
| Dr. Meredydd Evans | 2 |
| Cyfanswm | 475.50 |

Dynoda (b): benthyciad.

Anfoner y rhoddion at y Trysorydd: Gwyn Jarvis, 4 Cefn Llan, Heol Pennuel, Pentyrch, Caerdydd.

## BOB GARTRE

*Bob Owen yn ei gartre yng Nghroesor gyda'i briod.*

## YMHOLIADAU

A OES gennych ymholiad? Eisiau gwybod pa bryd y cyhoeddwyd cyfrol arbennig, efallai, neu am wybod am awdur neu gyhoeddwr. Anfonwch eich ymholiadau – am lyfrau, printiau, lluniau, recordiau a'u cefndiroedd i *Y Casglwr, 18 Minffordd, Llanrug, Caernarfon* ac fe geisir ateb pob cwestiwn sy'n atebadwy.

## £58 AT YR ACHOS

PAN GLYWODD Olwen Caradoc Evans am sefydlu 'Cymdeithas Bob Owen' fe fynnodd gynorthwyo trwy roi atgynhyrchiad o ysgythriad Samuel a Nathaniel Buck o dref Caerfyrddin yn rhodd i'r gymdeithas i'w raffio. Diolchwn iddi am ei nawdd hael a phrydlon.

Enillydd y raffl yw: *Miss C. Thomas, 2, Custom House St., Aberystwyth.*

## GWASANAETH

*Wyneb Ddalen Y Casglwr cyntaf – Gwanwyn 1977*

Eto, a chofio nad oedd dimai yn y drysorfa yr oedd sicrhau digon o danysgrifwyr i dalu am argraffu ac am bostio'r rhifyn cyntaf yn broblem fawr iawn. I helpu mi fedrais lwyddo i gael ordor am chwe dwsin o gopïau y medrwn eu dosbarthu fy hunan – a pharheais i wneud hynny tra bûm i'n olygydd. Cawsom hefyd gyfraniadau ariannol gan gyfeillion pybyr. A llafur cariad oedd ac a fu swydd y golygydd ac ysgrifennydd a thrysorydd.

Un o dasgau mawr Huw Williams oedd plygu'r rhifynnau a ddeuai o'r wasg fesul pedair tudalen – un o hen boenau cefnogwyr ein papurau bro. Bu'n rhaid gwneud hyn am flynyddoedd nes daethom yn ddigon goludog i fedru talu i Wasg Gwynedd am wneud y job.

Deuai incwm ychwanegol o'r tudalennau o hysbysiadau gan werthwyr llyfrau ail-law a ddatblygodd y rhan fwyaf poblogaidd o'r cylchgrawn. Rhan gyda'r gwerthfawrocaf hefyd gan fod cymharu'r hysbysiadau yn helpu i sefydlu'r prisiau hefyd – oedd wedi mynd yn lobsgows llwyr.

Yn hyn o gymwynas bu cefnogaeth y diweddar David Hughes, Llandudno o ddirfawr help, a bu ei golli ef a'i foneddigeiddrwydd yn golled enfawr i'r casglyddion ac i'r *Casglwr*.

Fel y tyfodd cylchrediad *Y Casglwr* cafwyd cyfaill arall sy gyda ni o hyd yn Siop yr Hen Bost ym Mlaenau Ffestiniog a gytunodd i rannu ei babell flynyddol yn y Brifwyl gyda Chymdeithas Bob Owen (fedraf i ddim cofio pwy a awgrymodd yr enw da yma i'r Gymdeithas). Fe dyfodd yr arferiad i dalu'r tanysgrifiad blynyddol ym Mhabell yr Hen Bost bob mis Awst gan lu mawr o'r cefnogwyr. A'r gefnogaeth yn ddigon da i'r Gymdeithas fedru talu am ddarlith flynyddol ym Mhabell Lên y Brifwyl.

Hefyd, er nad oedd yn gyhoeddiad llenyddol, fe benderfynodd Cyngor y Celfyddydau bod safon *Y Casglwr* yn ddigon uchel i haeddu grant flynyddol a ofalodd ei fod bellach yn solet ar ei draed gyda Richard H. Lewis yn drysorydd a dosbarthwr prysur.

Mae'r ffaith y bu cyn gymaint o ddyfynnu ar gyfraniadau i'r *Casglwr* gan ysgolheigion ac ymchwilwyr yn profi maint ei werth ac mae'r diolch am hynny yn enfawr i'r cyfranwyr ffyddlon. A'r ffaith i'r cylchrediad gyrraedd tri chant ar ddeg a hanner wedi rhoi boddhad mawr iawn i'r hen olygydd hwn.

Pob lwc a phob cefnogaeth i'r golygydd newydd.